EITEM 5

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **DYDDIAD** | **29 Ionawr Rhagfyr 2020** |
| **ENW** | **Canllawiau Cynllunio Atodol: Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu** |
| **PWRPAS** | **Ystyried a chymeradwyo'r ymatebion arfaethedig i sylwadau am y Canllawiau Cynllunio Atodol Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu a mabwysiadu'r Canllaw.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau am y Canllaw Cynllunio Atodol canlynol a mabwysiadu'r Canllaw hyn:**<br><br>• **Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu** |
| **AWDUR** | **Heledd Jones, Arweinydd Tîm, Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae'r Awdurdodau Cynllunio wedi ymrwymo i baratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno:

i. Adroddiad Ymgynghori a Chofrestr ynglŷn â'r Canllaw Cynllunio Atodol: Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu (Atodiad 1).
ii. Chopi o'r drafft terfynol o'r Canllaw Cynllunio Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu (Atodiad 2).

**2. Yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r Canllawiau drafft terfynol**

2.1 Cafodd drafft ymgynghorol y Canllaw Cynllunio Atodol Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu ei lunio ar sail ymgynghori gyda swyddogion perthnasol yn y ddau Gyngor a'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Derbyniwyd cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 4 Medi 2020 i ymgynghori yn gyhoeddus ar y Canllaw drafft hwn.

2.2 Bu ymgynghori cyhoeddus ar gynnwys y ddogfen drafft rhwng 16eg o Hydref a 27ain o Dachwedd 2020. Mae'r Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus a welir yn Atodiad 1 yn cofnodi crynodeb sylwadau a dderbyniwyd a'r sylwadau a argymhellion swyddog iddynt. Mae'r Canllaw a welir yn Atodiadau 2 wedi ei ddiwygio yn sgil yr ymgynghori, gan gymryd rhai o'r materion a godwyd i ystyriaeth.

**3. Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

3.1 Cynhaliwyd asesiad sgrinio i benderfynu ai peidio os dylai'r Canllaw hyn fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn unol â Chyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ac Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni Rheoliadau 2004 cysylltiedig. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARHC) o gynlluniau a rhaglenni a allai effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol yn un o ofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/42/EEC). Felly, cafodd y Canllaw ei hasesu i benderfynu a oedd asesiad priodol llawn yn ofynnol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

3.2 Mae'r Rheoliadau yn nodi'r broses i Awdurdodau ymgymryd â barn sgrinio. Oherwydd bod y Canllawiau yn cefnogi polisïau a fuodd yn destun AAS, y casgliad oedd nad oedd angen i'r Canllawiau fod yn destun AAS. Fe gafodd polisïau'r Cynllun eu hasesu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd ac fe ddaethpwyd i'r casgliad nad oedd angen Asesiad Priodol o'r Cynllun. Oherwydd bod y Canllawiau yn cefnogi rhai o'r polisïau hynny, fe ddaeth yr asesiad sgrinio a gyfeirir ato ym mharagraff 3.1 uchod i gasgliad nad oedd angen Asesiad Priodol o'r Canllaw hyn.

3.3 Yn unol â'r prosesau ar gyfer y Rheoliadau a enwir uchod, cafodd yr asesiad sgrinio eu gyrru i Gyfoeth Naturiol Cymru a CADW, sef y cyrff statudol amgylcheddol penodol. 'Roedd rhaid i'r cyrff yma fynegi eu barn o fewn cyfnod 5 wythnos.

3.4 Mae'r broses hwn wedi arwain at benderfyniad bod asesiad sgrinio'r Cynghorau yn gywir, ac, felly, nid oes angen AAS ac Asesiad Priodol o'r Canllaw. Caiff Datganiad Sgrinio eu cyhoeddi yn unol â hynny.

**4. Camau nesaf**

4.1 Ar ôl i'r Canllaw gael ei fabwysiadu fe fydd yn ystyriaeth cynllunio berthnasol.

4.2 Bydd copi o'r Canllaw terfynol ar gael i'w gweld ar wefannau'r ddau Gyngor a chopi caled i'w weld yn swyddfeydd y ddau Wasanaeth Cynllunio a swyddfa'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd pam fydd cyfyngiadau yn caniatáu.

4.3 Bydd copi o'r Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus ar gael i'w weld ar wefannau'r ddau Gyngor a chopi caled i'w weld yn swyddfeydd y ddau Wasanaeth Cynllunio a swyddfa'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd pam fydd cyfyngiadau yn caniatáu.

4.4 Bydd copi o'r Datganiad Sgrinio'r Asesiad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'w weld ar wefannau'r ddau Gyngor a chopi caled i'w weld yn swyddfeydd y ddau Wasanaeth Cynllunio a swyddfa'r gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd pam fydd cyfyngiadau yn caniatáu.

4.5 Byddwn yn rhoi gwybod i bawb wnaeth gyfrannu i'r ymgynghoriad cyhoeddus am y penderfyniad i fabwysiadu'r Canllawiau hyn.

## 5. Argymhelliad

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau am y Canllaw Cynllunio Atodol canlynol a mabwysiadu'r Canllaw hyn:

(i) Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu (Gweler Atodiad 2)

**ATODIADAU:**

Atodiad 1: Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus am y Canllaw Cynllunio Atodol: Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu
Atodiad 2: Canllaw Cynllunio Atodol: Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu